



Ysgoloriaethau Price Davies - Mynediad

Darperir Ysgoloriaethau Price Davies (sydd hefyd yn cynnwys Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Price Davies) o'r incwm o gymynrodd i'r Brifysgol ym 1900 gan y diweddar Mr Price Davies, Leeds.

Ysgoloriaethau Mynediad

1. Cynigir tair ysgoloriaeth, a elwir Ysgoloriaethau Price Davies, a phob un yn werth £400¹ y flwyddyn, ar gyfer cystadleuaeth bob blwyddyn.
2. Bydd yr ysgoloriaethau ar gael bob blwyddyn ar sail canlyniadau Arholiad yr Ysgoloriaeth Fynediad² a gynhelir ym Mhrifysgol Aberystwyth, a chyhyd ag y caiff UWRET adroddiad boddhaol oddi wrth y Sefydliad ynghylch ymddygiad a chynnydd yr ysgolhaig ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, fe'u delir am dair blynedd³, gyda'r posibilrwydd o'u hadnewyddu am bedwaredd flwyddyn.
3. Dyfernir yr ysgoloriaeth yn amodol ar fod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymhwyso i fatricwleiddio yn y Brifysgol. Ni fydd myfyriwr sydd eisoes wedi dechrau ar gynllun astudio ar gyfer gradd yn y Sefydliad yn gymwys i ymgeisio.
4. Ni ddyfernir ysgoloriaeth ac eithrio i ymgeisydd teilwng.
5. Un o amodau dal Ysgoloriaeth Price Davies o dan yr adran hon yw bod y deiliad yn dilyn cynllun astudio ar gyfer gradd gychwynnol yn y Celfyddydau neu'r Gwyddorau ym Mhrifysgol Aberystwyth.
6. Rhaid i geisiadau am fanylion yr arholiad, a manylion cael eich derbyn ar gyfer yr arholiad, gael eu cyfeirio at Gofrestrydd Prifysgol Aberystwyth.
7. Rhaid i bob ymgeisydd y dyfernir ysgoloriaeth iddo/iddi, o fewn tair wythnos o gyhoeddi canlyniadau'r arholiad, hysbysu Cofrestrydd y Sefydliad a yw yn derbyn yr ysgoloriaeth neu beidio.

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Lle bo'n gymwys
3. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael